


papur



priordy

**EIN NERTH A'N CADARN DŴR YW DUW,
EIN TARIAN A'N HARFOGAETH;
O ING A THRALLOD O BOB RHYW
RHYDD GYFLAWN WAREDIGAETH.
ARCHELYN DYN A DUW
LLAWN O GYNDDAREDD YW,
EI LID A'I DDICHELL GREF
YW EI ARFOGAETH EF;
DIGYMAR YW'R ANTURIAETH.**

Martin Luther (1483-1546) Cyf. Lewis Edwards (1809-1887)

Caneuon Ffydd: 121

*Dewiswyd gan Gwynn Bowyer. Gweler y rheswm am ei
ddewis y tu mewn*

Rhifyn 303
PAPUR MEDI 2017

GAIR GAN EIN GWEINIDOG

NODDFA

CROESO nôl i bawb wedi gwyliau'r haf, ac i dymor newydd yn hanes Y Priordy.

Wrth yrru heibio i'r Tŷ Capel pa ddydd, dyna hyfryd oedd gweld disgel o flodau ffres a lliwgar yn addurno'r silff ffenest, yn arwydd amlwg bod ein teulu o ffoaduriaid wedi hen ymgartrefu ar eu haelwyd newydd.



Mae nifer ohonom wedi dychwelyd adref i'n cartrefi ar ôl bod ar grwydr dros y haf. Mae dod adref yn deimlad braf iawn. Dod adref a chael ein croesawu gan aroglau'r hyn sy'n gyfarwydd i ni!

Diolch bod gennym gartrefi i ddod adref iddynt. Gwyddom oll nad yw hyn yn wir am bawb o bell ffordd.



Wrth lawenhau ein bod fel eglwys wedi medru cynnig cartref clyd a chysurus i un teulu bach, siom oedd darllen yn ddiweddar ystadegau o'r

Swyddfa Gartref yn adrodd bod dros hanner cynghorau Sir Cymru wedi methu â rhoi cartref i'r un ffoadur o Syria rhwng Ebrill a Mehefin eleni. Afraid dweud nad yw Cyngor Sir Gâr yn un o'r Cynghorau hynny. I'r gwrthwyneb, bu eu hymrwymiad yn un llawn a thrylwyr.



Yn ôl Ben Lloyd o elusen Oxfam “*Os ydy Cymru yn ymroddedig at fod yn genedl o noddfa, mae’n hanfodol fod pob Awdurdod Lleol yn ymdrechu i gymryd ei chyfran deg o ffoaduriaid sydd yn ffoi o’r rhyfel cartref.*”



Cenedl o noddfa. Dyna osodiad hyfryd. Ystyr y gair ‘noddfa’ yw lle diogel.

Pe baen ni’n cael y cyfle i osod enw ar ein Tŷ Capel, fe fyddem yn hoffi dewis ‘Noddfa’ yn y gobaith ei fod yn cynnig lle diogel a heddychlon i un teulu bach i fyw ynddo.

OND nid lle yn unig sy’n cynnig noddfa i ni. Daw’r geiriau’r Salmydd i’r cof ‘*Y Mae Duw yn noddfa ac yn nerth i ni*’. Duw yn ein diogelu ar daith bywyd, ac yn ein nerthu ar hyd y da

noddfa

Gweddi

Dad nefol, rho i ni’r ffydd i dderbyn dy Air,
y ddealltwriaeth i ddeall yr hyn y mae’n ei olygu,
a’r gwroldeb i’w weithredu;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,



Amen

CLYWED CRI DUW

Mae’r Priordy’n rhan o brosiect gan Gymdeithas y Genhadaeth Fyd Eang ar hyn o bryd. Diolch i Gareth Gravell, Huw Michael a Rhian Evans am gymryd rhan yn y drafodaeth yn ddiweddar.

RHIFAU ARGYFWNG

Ypset	Ioan 14
Gwan	Salm 18:1-29
Unig	Salm 23
Pryderus	Mathew 8:19-31
Anhapus	Colosiaid 3:12-17
Mewn perygl	Salm 91
Isel ysbryd	Salm 27
Diffyg ffydd	Ecsodus 14
Angen gwroli	Joshua 1
Angen cyfeiriad	Salm 73:21-26
Chwilio am heddwch	Mathew 11:25-30
Mynd ar daith	Salm 121
Ymdopi â cholled	Luc 15
Brwydro'n ariannol	Salm 37
Diflasu gyda gwaith	Salm 126

AR GAEL 24/7

NID OES ANGEN GWASANAETH FFÔN

*Addasiad o daflen a welwyd yn Llyfrgell y Coleg Diwinyddol,
Prifysgol Stellenbosch, De Affrica*

GŴYL MAWL MEDI

CAPEL EBENESER, ABERGWILI – DYDD SUL 24 MEDI 2017

Noder newid yn y lleoliad oherwydd bod gwaith cynnal a chadw'n digwydd yn y Tabernacl

Y Bore am 10 Oedfa o Fawl i'r Plant a'r Oedolion dan arweiniad Catrin Hughes	Y Prynhawn am 2 Oedfa Bregethu gyda'r Parchedig Owain Llyr Evans
---	---

YMARFERION

Plant Bore Sul 17 Medi Y Priordy – 11 y bore Arweinydd Nicki Roderick	Oedolion Nos Sul 10 / 17 Medi Ebeneser, Abergwili – 7 yr hwyr Arweinydd Helen Gibbon
--	---

EMYNAU

Oedolion

Rhif y Tonau (Cff = Caneuon Ffydd)

15 Gwilym 18 Woodlands (363 Cff) 19 Eirinwg (172 Cff)

20 Eleazer (588 Cff) 22 Cefn-bedd Llewelyn (189 Cff)

23 Melcombe (254 Cff) 24 Weimar (685 Cff)


Adran y Plant

2 Fy Fflam Fach i 6 Agor ein llygaid 7 Mi benderfynais

9 Pwy yw brenin y jyngl? 10 Cofiaf amdanat ti

11 Y seren fach

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS A'R BLWCH POTELI PLASTIG
YN Y CYNTEDD

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

**Y PARCHEDIG
W J EDWARDS,
EIN CYN-WEINIDOG WRTH
IDDO DDATHLU
ACHLYSUR ARBENNIG**



PP: Anodd credu, mae'n siŵr,, fod hanner can mlynedd wedi mynd heibio ers i chi gael eich ordeinio'n Weinidog. Tybed beth sy'n aros yn y cof am y diwrnod arbennig hwnnw?

WJE: Diflannodd y degawdau'n sydyn wrth imi wasanaethu'r Meistr a'r bobl. O'r 24 a gymerodd ran mewn tair oedfa dim ond 5 sy'n fyw. Y diweddgar Barchedig Maurice Loader a bregethodd nos Fawrth 5 Medi 1967 yn yr Hen Gapel ar y Pentecost. Llywyddwyd gan weinidog Annibynwyr y Bala, y diweddgar Barchedig. Gwilym Williams, a fu fel ei gyfaill y Parchedig Huw Jones (97 oed), gweinidog y Presbyteriaid, yn gefnogwyr rhagorol i mi. A phobl fel nhw a'm calonogodd wrth imi wynebu her y Weinidogaeth.

PP: Ond gadewch i ni fynd yn ôl at y gwreiddiau - magwraeth ym mhlwyf Trefeurig, yng ngogledd Ceredigion, yn Nhre-Taliesin a Bow Street. Beth am y dylanwadau cynnar?

WJE:: Fe'm ganed yng nghartref mam a'm bedyddio yng nghapel y teulu, Bethlehem, Cwmerfyn. Er imi symud i Daliesin yn flwydd oed dychwelem at mam-gu a thad-cu yn gyson. Fe fyddai ef yn darllen pennod o'r Beibl a gweddïo bob bore adeg brecwast, a'r un modd yn y capel fe'i gwelwn ar ei liniau'n gweddïo ac yn athro ar ddosbarth y gwragedd. Pobl debyg i 'nhad-cu a ddylanwadodd arnaf hefyd yng nghapel Rehoboth, Taliesin a'r festri Rwy'n gwerthfawrogi fod athrawon ysgol Sul wedi dangos inni fod Iesu Grist yn rhywun unigryw, a'r un oedd y sefyllfa wedi symud i gapel y Garn, Bow-Street lle dechreuais bregethu.

PP: Cawsoch eich addysg wedyn yn Ysgol Llangynfelyn ac Ysgol Ramadeg Ardwyn? Fu'r rhain yn ddyddiau difyr?

WJE: Mae Ysgol Llangynfelyn, Taliesin wedi cau ers blwyddyn a hithau'n 140 oed. Dim ond 2 allan o 100 oedd yn ddi-Gymraeg ond erbyn hyn 6 theulu sy'n siarad yr iaith yn y pentref. Wedi i Huw Evans (tad y cynhyrchydd teledu John Hefin) ddod atom o'r awyrlu ym 1946 llwyddodd 6 ohonom i basio'r *sgolarship* i Ysgol Ramadeg Ardwyn, Aberystwyth. Ysgol gwbl Saesneg a'r unig Gymraeg a glywn oedd yn y dosbarthiadau Cymraeg ac Ysgrythur gan griw da o athrawon, yn enwedig W. Beynon Davies. Dywedodd wrthyf ei fod yn credu fod ei wersi ysgrythur ymhlith y dylanwadau a'm harweiniodd i'r Weinidogaeth, a gwir y gair.

PP: Cyn troi'ch golygon at y Weinidogaeth buoch yn gweithio mewn siop ddillad yn Aberystwyth ac yn Adran Llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Profiad da ar gyfer gwaith fel gweinidog?

WJE: Bu delio gyda phobl a gosod ffenest i ddenu cwsmeriaid i brynu yn well nag unrhyw goleg ac euthum â phrofiad y cownter i'r pulpud. Er mai dim ond am flwyddyn y gweithiais yn y Llyfrgell esgorodd y profiad ar fy niddoreb oes mewn hanes a hel achau! Elwais yn sylweddol yn ogystal wrth fynychu Dosbarth Allanol Gwenallt yn Rhydypennau ar lenyddiaerth Cymru am chwe gaeaf.

PP: Cawsoch eich hyfforddi ar gyfer y Weinidogaeth yn y Bala, Caerdydd ac Abertawe. Pwy oedd y dylanwadau arnoch yn y cyfnod hwn?

WJE: Ym Medi 1958 ymunais â 20 o fyfyrwyr tebyg i mi yng Ngholeg y Bala (coleg Dr.Lewis Edwards) i baratoi at goleg diwinyddol neu brifysgol a llwyddais yn narlithoedd y Prifathro R.H.Evans, a'r Athro T.Hevin Williams,i basio arholiadau lefel O ac A a chael fy nerbyn i Goleg Prifysgol Cymru, Caerdydd. Fe'm cyfoethogwyd yn narlithoedd yr Athro A.O.H.Jarman a'i gyd-ddarlithwyr, ac wrth i'r Athro Elwyn Rowlands drafod yr Hen Destament. Rhwystrodd salwch fi rhag parhau yno. Bûm yng Ngholeg Coffa'r Annibynwyr, Abertawe am dair blynedd a bu'r hyn a dderbyniais gan y Prifathro Pennar Davies, a'r Parchedigion. W.B.Griffiths a Maurice Loader, yn arweiniad rhagorol ar gyfer gwaith y Weinidogaeth.

PP: A dyma ddechrau fel gweinidog ar gynulleidfa hynaf yr Annibynwyr ym Meirionnydd yn yr 'Hen Gapel' Llanuwchllyn ym 1967. Tipyn o her i ŵr ifanc ar ddechrau gyrfa yn y Weinidogaeth?

WJE: Her yn wir wrth feddwl mai fi oedd yr 16eg gweinidog (11 i'r de o Fachynlleth!) i wasanaethu ym mam-eglwys Meirionnydd, gyda'r Dr.George Lewis a'r Parchedig Michael Jones tad y Prifathro Michael D.Jones, ymhlith yr enwocaf. Cefais faes a phobl wrth fy modd a llwyddo gyda'n gilydd i hyrwyddo gwaith yr Efengyl. Ar nosweithiau Sul yn ystod yr haf ymunai 200 o wersyllwyr yr Urdd, Glan-llyn â ni.

PP: Ydyn ni'n iawn i feddwl mai un o binaclau'ch cyfnod ym Meirionnydd oedd dod yn Weinidog Bro ar ôl ychwanegu eglwysi Presbyteriaidd Glanaber,

Rhosygwalia, Glangywer a Chynllwyd at eich gofal ym 1984? WJE: Roedd yr hedyn wedi'i hau cyn fy nyddiau i gyda chapelwyr ac eglwyswyr yn mynychu'r un Gymdeithas Ddiwylliadol, ac wedi imi sefydlu Corlan y Plant i holl blant Ysgol O.M.Edwards datblygodd yr awydd am fwy o gydweithio ac arweiniais aelodau'r holl gapeli i uno mewn un weinidogaeth a bu cefnogaeth Tom Jones yr Annibynnwr ac Ifor Owen y Presbyteriad yn allweddol. Ar Sul cyntaf Ionawr 1984 cynhaliwyd Oedfa Sefydlu Gweinidogaeth Bro a dyblodd fy aelodau o 250 i 500! dros nos. Roeddwn yn llawen wrth i'm breuddwyd gael ei wireddu

PP: Ac wrth symud i Sir Gâr ym 1992 - i'r Priordy, Cana a Bancyfelin roeddech yn gallu parhau fel Gweinidog Bro a hynny wrth eich bodd, mae'n siŵr?

WJE: Ni fyddwn wedi symud i Gaerfyrddin pe na bai yno Weinidogaeth Bro, a diolchais fod y Parchedigion J.J.Evans ac Alun Page wedi gosod sylfaen gadarn i'r uno a bod yr aelodau wedi ymateb gyda brwdfrydedd. A diolch fod y Parchedig Beti-Wyn yn parhau'r gwaith arloesol. Gwerthfawrogais gefnogaeth pobl a phlant yr ofalaeth

PP: Yna, dychwelyd i'r hen fro i ymddeol a gofalu am gapeli Bethlehem, Aberhosan, Y Graig Machynlleth a Saron Llanwrin rhwng 2003-11.

WJE: Gwasanaethais fel gweinidog rhan-amser i dair eglwys ym Mro Ddyfi, bro tylwyth mam, o 2003 i 2011. Awgrymais y dylai aelodau'r Graig a Maengwyn gydaddoli bob Sul a gyda chau'r Graig eleni mae pawb yn addoli ym Maengwyn.

PP: Rydych wedi gweld newidiadau mawr ym mywyd Cristnogol Cymru dros y blynyddoedd. Oes gwersi i'w dysgu yn eich barn chi wrth i ni, Gristnogion Cymraeg. wynebu'r dyfodol?

WJE: Bu raid imi hybu'r Weinidogaeth Bro heb arweiniad na chefnogaeth arweinyddion yr enwadau. Nid oes ganddynt weledigaeth a '*Lle nad oes weledigaeth methu a wna'r bobl*' Yn lle adeiladu pobl yn y ffydd tincran gyda'r hen adeiladau yw blaenoriaeth y mwyafrif.

PP: Fe gyfeirir atoch yn briodol iawn fel yn o gynheiliaid Y Pethe Yn eisteddfodwr triw, yn gyfrannwr cyson i'r papurau a'r cylchgronau a'r cyfryngau Cymraeg, rydych hefyd yn awdur rhai cyfrolau fel *Cerdded y Clawdd Terfyn*, sef Cofiant R Dewi Williams,. Ond gadewch i ni gyfeirio'n arbennig at eich colofn *O'r Byd a'r Betws* y

dechreuoch ei hysgrifennu ar gyfer Y Cyfnod, papur wythnosol cylch y Bala, ym 1973. Ydych chi'n dal ati?

WJE: Yr unig Brifwyl a gollais rhwng 1958 a 2014 oedd un1963. Gwerthfawrogais gael bod yng ngwisg wen yr Orsedd er 1990, a chael ysgrifennu i'r wasg am y 'Steddfod. Anerchais yn y Babell Lân droeon a derbyn ambell wobr. Cyfrennais yn aml i bapurau a chylchgronau enwadol, 'Y Faner', a chylchgronau llenyddol. Ymddangosodd 'O'r Byd a'r Betws', yn wythnosol o Ionawr 1973 hyd nes fy nharo gan y strôc,y llynedd. Ar ôl 4 mis llwyddais i ailafael yn y gwaith a dal ati yw'r bwriad.



PP: Mae'ch diddordebau'n eang a phethau gorau'r genedl yn golygu cymaint i chi ond gwyddom yn dda hefyd mor bwysig yw'r cwlwm teulu i chi.

WJE: Ceisiais wasanaethu Crist a Chymru bob amser ac rwy'n cytuno â safbwynt y Parchedig Lewis Valentine: *'Ni chollodd Cymru ddim wrth fod yn ffyddlon i Iesu Grist, ond fe gyll bopeth wrth gefnu arno Ef. Yng ngwasanaeth Crist, ac wrth ymroi'n daer a dygn iddo y cawn ni ail einioes i'n hiaith a'n cenedl'*. Ni fyddwn wedi gallu dal ati heb gefnogaeth Gwenda, Nest, Lowri, Non, ac eraill yn y teulu a'r un yw fy ngwerthfawrogiad o deyrngarwch cyfeillion a phobl fy ngofal yn yr eglwysi. Boed i dangnefedd yr Arglwydd ein cynnal a'n cryfhau yn ei wasanaeth.

Diolch yn fawr iawn i chi am ateb y cwestiynau a phob dymuniad da i chi a Gwenda a'r merched Nest, Lowri a Non a'r teulu cyfan ar yr achlysur arbennig hwn yn eich hanes

DATHLU HANNER CAN MLYNEDD

YN Y WEINIDOGAETH

Y PARCHEDIG W J EDWARDS

(Cyn-weinidog Gofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin)

**Cynhelir oedfa arbennig i ddathlu'r achlysur nodedig
uchod yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn ar
Brynhawn Sul 10 Medi 2017 am 3 o'r gloch.**

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

GWEN WILLIAMS

Tir Ysgawen, Llangynnwr

a

JOHN AC ELUNED MADDOX

Hafan Tywi, Y Rhodfa

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

Sara Llwyd yn sôn am...

Cyfle, Cyfeillion, Crist

DYMA'R tri gair a ddaw i'w meddwl wrth gofio am yr amser gwych a dreuliwyd yng Nghynhadledd Cymdeithas Annibynwyr y Byd yn Ne Affrcia.



Wedi astudio hanes De Affrcia yn fy nghwrs TGAU eleni, roedd yn dipyn o sioc pan ddaeth y cyfle i'm rhan i ymweld â'r wlad. Roeddwn yn gyffrous iawn wrth gychwyn ar yr antur fawr. Hon oedd fy nghynhadledd gyntaf a doedd gen i ddim syniad beth i'w ddisgwyl, ond buan y des i sylweddoli, o'r cyfarfyddiad cyntaf â

nifer o'r cynadleddwyr ar y bws o'r maes awyr i Stellenbosh, fod yr wythnos yn mynd i fod yn un arbennig iawn.



Roedd digon o amrywiaeth yn rhaglen y gynhadledd a'r sesiynau'n gryno, gyda chyfleoedd i gymdeithasu â phawb. Gan na chynhaliwyd Cynhadledd i'r Ifanc i gydredeg â chynhadledd yr oedolion eleni fel yn y gorffennol, roedd yn wych bod yng nghwmni pawb o bob oed.

Wedi dweud hynny, un o uchafbwyntiau'r daith i mi oedd cwrdd fel ieuenctid gyda'r nos a chael cyfle i gymdeithasu, trafod, chwarae gemau a gweddio. Datblygwyd cyfeillgarwch gref rhyngom a des i sylweddoli, er ein bod yn dod o gefndiroedd gwahanol ac yn siarad ieithoedd gwahanol, fod un peth yn gyffredin i ni, sef ein cariad at Dduw. Roedd yn brofiad hyfryd bod yng nghwmni Cristnogion ifanc eraill a rhannu profiadau.

Ces flas mawr ar fynychu'r Astudiaethau Beiblaidd, sesiynau Dysgu wrth Wneud ac ymuno yn yr addoliad amrywiol. Roedd Y Cymun yn ystod Oedfa'r Llywydd newydd yn wefreiddiol gan fod cymaint o bobl o wahanol wledydd yn cymryd y bara a'r gwin gyda'i gilydd i gofio am aberth Iesu.

Un o'r pethau a fydd yn aros yn fy nghof yw'r daith i'r Maestref a



theimlo ysbryd cymunedol cryf ymhiith y trigolion lleol er nad oedd ganddynt y pethau sydd gennym ni. Rwy'n dal i weld y wên ar wynebau'r plant bach! Braint hefyd oedd ymweld â chell Nelson Mandela a chael ein hatgoffa am ei ddewrder.

DIOLCH am daith fendithiol ac am y cyfle i dyfu yn y ffydd a thyfu mewn cyfeillgarwch ag

eraill o bedwar ban byd. Diolch am wefannau cymdeithasol sy'n caniatáu i ni gadw mewn cyswllt, oherwydd doedd hi ddim yn hawdd ffarwelio â phawb ar ddiwedd wythnos a ddaeth â phawb mor agos at ei gilydd.



SIEILOC

Drama un dyn newydd yn yr iaith Gymraeg
Perfformir gan Rhodri Miles

Theatr y Lyric

Nos Fercher, 25 Hydref 2017 – 7.30

Swyddfa Docynnau ☎ 0845 226 3519



Beth am droi at cyfundeb.com?

Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin



MABOLGAMPAU MIC



Gair gan...

WYN EVANS

Cadeirydd Is-bwyllgor yr Adeiladau



Annwyl bawb

Dyma adroddiad er gwybodaeth o'r hyn sydd wedi cael ei wneud yn y Priordy'n ddiweddar.

Cafodd pwyntiau 2 a 3 eu cwblhau gan bobl broffesiynol ond rwy'n ddolchgar iawn i holl aelodau'r Is-bwyllgor am eu cydweithrediad gyda gweddill y gwaith.

Yn gywir iawn

Wyn

1	Glanhau wal ochr yr organ a'i hailbaentio
2	Tynnu rhai seddau o ben blaen y capel (ar yr ochr chwith wrth wybebu'r pulpud) er mwyn cael mwy o le i'r gerddorfa a gosod carped newydd yn y fan honno
3	Gosod weiren drydan newydd i'r cornel ble mae'r gerddorfa er cyfleustra'r offerynwyr
4	Archwilio'r cyfarpar diffodd tân. Yn disgwyl yr ymateb i hyn.
5	Croesawu deiliaid newydd i'r Tŷ Capel. (Mae Grŵp Bugeilio Teulu'r Tŷ Capel' yn gofalu amdanynt ac yn galw i'w cynorthwyo).

Y TYST

50c y rhifyn!

Cysyllter â Sulwyr Thomas



A OES HEDDWCH?

AR fore Sul 16 Gorffennaf yn y Priordy cynhaliwyd oedfa'n seiliedig ar hanes Hedd Wyn a hynny ym mlwyddyn canmlwyddiant ei golli.



Ar 4 Awst 1914 ymunodd Prydain â Ffrainc, Rwsia a Serbia mewn rhyfel yn erbyn yr Almaen ac Awstria pan feddiannwyd gwlad Belg gan yr Almaen. Roedd pawb yn credu y byddai'r ymladd drosodd erbyn y Nadolig. Ond ddaeth y brwydro ddim i ben tan 11 Tachwedd 1918. Mae'n debyg mai'r milwr enwocaf o Gymru i farw yn y Rhyfel hwn oedd Ellis Humphrey Evans, a adnabyddir gan yr enw barddol Hedd Wyn. Daeth yn un o 'eiconau'r Rhyfel Mawr yng Nghymru.

Yn ystod yr oedfa, clywsom ychydig o hanes Hedd Wyn - o'i eni yn Nhrawsfynydd ym 1887 a'i flynyddoedd yn Yr Ysgwrn, fferm ei dad, hyd at iddo ymuno â 15fed Fataliwn y Ffiwsilwyr Cymreig a chipio Cadair Eisteddfod Penbedw ym Medi 1917 ac yntau wedi'i ladd chwe wythnos ynghynt, ar 31 Gorffennaf ym Mrwydr Cefn Pilkem, rhan o Frwydr Passchendaele yng ngwlad Belg.



Daethpwyd â'r gadair yn ôl i Drawsfynydd ar y trêr ar 13 Medi, 1917 a chludwyd hi i'r Ysgwrn ar gart a cheffyl. Yn eironig ddigon, gwnaed y gadair gan ffoadur o'r enw Eugene Vanfleteren a hannai o Wlad Belg.

Cafodd y Rhyfel effaith mawr ar Gymru. Roedd y golled mor enfawr fel bod dynion o bron pob un pentref a thref yn y wlad heb ddychwelyd adref ar ôl bod yn rhan o'r brwydro. Mae Hedd Wyn ei hun yn cynrychioli'r holl ddynion ifanc o Gymru ac o Ewrop yn y pen draw, a gafodd eu malurio ar laddfeysydd y Rhyfel Mawr. A daeth y **Gadair Ddu** i gynrychioli gwastraff, oferedd ac erchyllter rhyfel. Dywedwyd ar y pryd fod y Rhyfel Byd Cyntaf i fod yn "rhyfel i orffen neu ddiweddu pob rhyfel".ond nid felly y bu fel y gwyddom yn dda. Bbu rhyfeloedd ar ôl y rhyfel hwnnw ac maent yn parhau hyd heddiw.



Mae yna air Cymraeg arall sydd ag ystyr tebyg i "heddwch" sef "tangnefedd". Yn ôl Cristnogion, i gael gwir dangnefedd mae angen cyfiawnder – sicrhau tegwch a rhyddid rhag gormes a chyfle cyfartal i bawb, trin ein gilydd heb wahaniaerh na rhagfarn, parchu hawliau dynol. Ni cheir tangnefedd drwy drais ond "trwy garu ein gelynion"

Ystyriwyd tri pheth sydd gan y Beibl i'w ddweud am sicrhau gwir heddwch a thangnefedd. Yn gyntaf, darn o Efengyl Mathew (5:38-43) sy'n dangos mai lladd yr elyniaeth wnaeth Iesu ac nid lladd y gelyn. Yn ail, darn o 2 Corinthiaid (5:17-20) lle cawn ein hannog i ddod i berthynas newydd â Duw a bod yn llysgenhadon drosto. Yn drydydd, darn o Effesiaid 2 (10-18) lle dysgw'n fod arfau ysbrydol Duw ar gael i'n cynorthwyo. i gynnal y safonau Cristnogol. Canwyd emynau gyda heddwch a chariad a thangnefedd yn ganolog iddynt. Cafwyd gweddi bwrpasol

CYFLWYNWYD yr oedfa gan Elinor Wyn Reynolds ac Elis Jones a chymerwyd rhan gan Glenys Thomas, Adrian Evans a Nansi Hayes. Clywyd datganiad o'r *Bardd Trwm dan Bridd Tramor* gan Meinir Lloyd wedi'i recordio gan Ian Williams (Radio Glangwili). Roedd Heather Williams wrth yr organ. Gofalwyd am y testun PwyntPwer gan Sulwyn Thomas a chafwyd help Beti-Wyn i'w baratoir.



Diolch i Wyn Evans, un o'n diaconiaid, am y llun hwn ohono ar lan bedd Hedd Wyn.

Roedd Wyn ar daith gyda Chôr Meibion De Cymru yn 2014 i gofio'r Rhyfel Mawr pan gafodd y fraint o adrodd englynion coffa R Williams Parry i Hedd Wyn tra oedd y Côr yn hwman Troyte's Chant yn y cefndir.

Anrhydedd bythgofiadwy a theimladwy iawn.


PARTI'R YSGOL SUL





TRYSOR o lyfr o eiddo'n Ficer Canon Patrick, fel mae cynulleidfa Eglwys Crist yn gwybod, yw'r ffacsimili arbennig a phrin gan Wasg Prifysgol Cymru (1965) o Lyfr Gweddi Cyffredin 1567 o oes Elizabeth I.

Gellir honni yn ewn ei fod wedi bod yn gonglfaen ym mharhad ein iaith ar ei chyfoethocaf dros y canrifoedd - yn enwedig ar lafar wrth i gynulleidfa ar ôl cynulleidfa wrando a llefaru'r gweddïau, y colectau a'r salmau, heb sôn am ddysg dros tymor a Gwyl ac allwedd i'r Ysgrythurau a chyswllt rhwng yr Hen a'r Testament Newydd.



Y cydweithio gloyw yn y 'Tŷ Dadeni' hwn rhwng yr Esgob Richard Davies, William Salesbury a Thomas Huet (Canon a phrif gantor Tyddewi) sicrhodd gyfieithiad y Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi Cyffredin i'r Gymraeg erbyn 1567.

17

'Tŷ'r Dadeni' yn Abergwili hefyd oedd yn goleg i 'r Groeg, yr Hebraeg, y Lladin, y Saesneg a'r Gymraeg, a thalwrn i ryddiaith a

barddoniaeth ac i gynnyrch a gwaddol cewri llên: Lewis Glyn Cothi, Dafydd ap Edmwnd, Gruffydd ap Niclas, Tudur Aled, Gwilym Hiraethog a Siôn Tudur. Bu Richard Davies a William Salesbury mor ddylanwadol yn Nhŷ'r Arglwyddi a Chyfrin Gyngor y Frenhines wrth hybu cyfieithiadau'r Ysgrhythurau i'r Gymraeg, a chofiwn mai un o deulu'r Toy(e) o ardal ffasiynol Heol y Santes Fair ger Stryd y Cei a gyfrannodd yn helaeth i'r cyllido.

Un paragraff o'r Llyfr Gweddi o ddiddordeb i gynulleidfa heddiw efallai fyddai o'r 'Trefn am Weinidogaeth' y Cymun, sef

'y bwrdd ar amser y Cymun, a lliain gwyn teg arno a saif ynghanol yr Eglwys neu yn y Gangell.....a'r offeiriad gan sefyll wrth yr ystlys Gogledd i'r bwrdd a ddywaid weddi'r Arglwydd a'r Colect fydd yn canlyn'.

Ymddangosodd yr erthygl hon ym Mhapur y Plwyf, Plwyf Dewi Sant Caerfyrddin – Eglwys Crist Mehefin / Gorffennaf 2017. Diolch yn fawr iawn am y cyfle i'w chyhoeddi ym Mhapur Priordy.

DEWIS GWYNN BOWYER

Gweler y tudalen blaen

Meddai Gwynn....

Gyda dathliad Martin Luther ar y gorwel – dyma emyn a ganwyd yn angladd fy nhad [Y Prifathro Gwilym Bowyer, Coleg Bala-Bangor]. Roedd fy nhad yn meddwl yn uchel o Luther er ei feiau, yn gweld ei fawredd a'i hiwmor yn ogystal â'i alluoedd diwinyddol a'i ieithgarwch. Cyfieithodd y Beibl i'r Almaeneg. Oni bai fod hyn wedi digwydd ni fyddai William Morgan wedi cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg ac ni fyddai emynau Pantycelyn ac eraill wedi gweld golau dydd.



PERERINDOD YR OFALAETH I SOAR Y MYNYDD



**Tudalen
Ieuenctid@Priordy**

Tymor newydd

Pob hwyl i bawb ar ddechrau tymor newydd, yn enwedig y rhai sy'n cychwyn mewn ysgol newydd. Pob hwyl i ddwy o aelodau PIP a fydd yn cychwyn yn y Brifysgol ym mis Medi, Cara Rogers yn Aberystwyth ac Elin Wyn James ym Mirmingham.

Mabolgampau



Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu yn rowndiau terfynol mabolgampau MIC. Roeddwn yn dilyn eich hanes ar y noson o Dde Affcia - diolch i Facebook a Trydar!

Trip yr Ysgol Sul

Ymddiheuriadau mawr fy mod wedi gorfod gohirio'r trip am resymau teuluol. Sori bawb.



Tybed a fedrwn gynnal digwyddiad cymdeithasol cyn i'r gaeaf droi i mewn? Yn agored i awgrymiadau!

Cwrdd Diolchgarwch

Bore Sul cyntaf Hydref. Gofynnir yn garedig i bob plentyn a pherson ifanc ddod â chyfraniad i Fanc Bwyd Caerfyrddin. Diolch

Trefn newydd PIP

Fe fydd trefn PIP ychydig **yn wahanol** eleni ac ar gyfer **bobl ifanc blynyddoedd ysgol 7 i 10 yn benodol**, gyda chriw blwyddyn 11 (sef PIP+!) yn aros i fyny yn y Capel ar gyfer yr oedfa lawn. Ond, fe fydd PIP+ yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau ychwanegol e.e. oedfaon arbennig, teithiau PIP ac yn y blaen. Hefyd, dim ond ar **un** bore Sul y mis y bydd PIP yn cyfarfod o hyn ymlaen gan obeithio y bydd mwy yn dod ar y bore hwnnw. Wedi dweud hynny, mae croeso i bawb ddod i'r oedfa bob bore Sul arall hefyd! Fe fydd manylion yn dod atoch o wythnos i wythnos drwy ebost, Facebook. Trydar a chofiwch hefyd fod gennym grŵp PIP ar Facebook. Cofiwch ymuno!

Hwyl am y tro, Beti-Wyn

PERERINDOD YR OFALAETH I SOAR Y MYNYDD



Glenys Thomas.....

SOAR Y MYNYDD

ER mai dyma'r trydydd tro i ni, fel Gofalaeth, fynd ar bererindod i Soar y Mynydd, wnaeth hynny ddim amharu ar fwynhad y diwrnod.



Yn ffodus iawn, roedd y tywydd o'n plaid wrth i ni gasglu selogion, Bancyfelin, Cana, Heol Awst, Penuel, Eglwys Crist ac wrth gwrs y Priordy a theithio'n hamddenol drwy Ddyffryn Tywi i fyny i Gronfa Ddŵr



Brianne ac aros i gael picnic yno. Hyfryd oedd clywed am ddyddiau cynnar yr hynaf yn ein plith, Margaret Lon, mam Edward a Marlene, yn mynychu ysgol fach Rhandirmwyn naw deg o flynyddoedd yn ôl!

Ymlaen wedyn ar y ffordd droellog i Soar. Rhyfeddu at y

golygfeydd godidog o'r gronfa ddŵr oddi tanom a gofal arbennig y gyrrwr, Elfed Lewis.

Capel arbennig yw Soar, yng nghanol moelni'r mynyddoedd. Dim trydan, dim golau, dim Pwynt Pŵer! Er hynny roedd wedi cael cot o baent blynyddol a'r croeso yn gynnes a brwd. Roedd yr organ fach yn gweithio ar fatris a'r canu yn rhyfeddol gyda'r capel yn orlawn wrth i griw o ardal Saron Llangeler ymuno yn y gwasanaeth.



Roedd y gwasanaeth yng ngofal Beti-Wyn ac ar ôl gweddi agoriadol a chydadrodd Salm 95, cafwyd darlleniadau gan Wyn "Tegryn" Evans o'r Priordy, Gwyneth Griffiths o Bancyfelin a gweddiau gan Joan Thomas o Capel Heol Awst ac Ann Jones o Gana.

Thema'r myfyrdod oedd "Tawelwch," a'r adnod a ddewiswyd fel testun o Lyfr y Salmau oedd "*Ymlonyddwch a dysgwch mai fi yw'r unig Dduw*"

Fel arfer roedd tri phen i'r Bregeth - 1 Un Duw sydd. 2 Mae'n Dduw cadarn. 3 Duw sydd â'r Gair olaf.

A ninnau mewn mangre mor dangnefeddus o dawel, roedd neges ein gweinidog yn hynod berthnasol a pheri i ni ystyried goblygiadau darganfyddiadau heddiw a'r modd y mae perygl i anharddu ac amharchu ein hamgylchedd.

Neges Beti-Wyn oedd-"Beth allwn ni fel Cristnogion ei wneud? Rydym yma i warchod a gofalu. Mae Duw wedi ein gwneud yn stiwardiaid y Greadigaeth hon."

Hyfryd oedd cael sgwrsio gyda rhai o ffyddloniaid Soar cyn ymadael â nhw a'r gwenoliaid oedd yn hedfan yn hapus o gwmpas yr hen gapel bach.



NÔL â ni wedyn i'r Hydd Gwyn, Llandeilo am swper a diolchwyd yn gynnes i bawb gan Sulwyn Thomas a fu ynglyn â diwrnod llwyddiannus arall yn hanes yr Ofalaeth, yn cynnwys Joanne Richards (Bancyfelin), Mair Jones (Cana) am gasglu'r enwau a David Lloyd (Y Priordy) am helpu gyda'r ochr ariannol a hefyd Elfed Lewis y gyrrwr.

CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN

Capel Seilo, Rhos, Llangeler

CWRDD CHWARTER

Dydd Iau 14 Medi 2017

4.00 (Y Gynhadledd) a 7.00 (Y Cwrdd Hwyrrol)

Y CWRDD HWYROL

COFIO BRWYDR OLAF HEDD WYN

Atgofion Milwr o Gymro a'i welodd yn syrthio
gan ei nai

Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor


Cyflwyniad trwy eiriau, cân a lluniau

Croeso cynnes i bawb

Mae'r capel newydd ailagor gyda seddau cysurus

Roedd Simon Jones yn gyfaill i Ellis Evans. Yn ystod Brwydr Ypres fe welodd Simon Hedd Wyn yn syrthio gyda marwol glwyf. Goroesodd Simon Jones y rhyfel a dod adre i ffermio yn ardal Llanuwchllyn

PARTI'R YSGOL SUL



YMGYRCH ELUSENNOL YR OFALAETH

**CYFLWYNO RHODDION
EGLWYSI'R OFALAETH
I SAM DUGGAN
PLANT DEWI**



THEOPHILUS EVANS

Hanesydd a Llenor

YN union ddau gant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn y bu farw Theophilus Evans, awdur y llyfr enwog *Drych y Prif Oesoedd*, un o glasuron ein llên.

Cafodd ei eni tua 19-20 Chwefror 1693 a'i fagu ym Mhenywenallt ym mhlwyf Llandygwydd, Ceredigion. Deuai o deulu bonheddig ac ymfalchïai yn hynny. Mae'n debygol iddo gael ei addysg yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin er nad oes sicrwydd o hynny. Roedd llenyddiaeth ac ymhél â llenyddiaeth yn beth byw yn ei fro enedigol yn Nyffryn Teifi. Mae'n siŵr iddo ddysgu llawer am hanes a llenyddiaeth yng nghwmni dysgedigion fel Samuel Williams, a oedd yn byw yn y fro.

Cafodd ei urddo'n offeiriad ym 1718 a gwasanaethodd Eglwys Loegr yn sir Frycheiniog am weddill ei oes ac eithrio rhwng 1722 a 1728 pan ddaliodd fywoliaeth **Llandyfriog** yng Ngheredigion.



Roedd Theophilus Evans yn amddiffynnwr brwd o Eglwys Loegr. Ym 1740 apwyntiwyd William Williams, Pantycelyn, yn gurad iddo ym mhlwyf Llangamarch gyda Llanwrtyd

ac Abergwesyn. Oherwydd argyhoeddiadau efengylaidd Williams, gwrthododd Evans roi tystysgrif iddo gael ei ordeinio'n offeiriad. Ildiodd Williams ei guradaeth ac ymaflwyd i hybu twf Methodistiaeth..

Mae'n debyg i Theophilus Evans ddarganfod ffynnon a alwyd wedi hynny *Y Ffynnon Las* yn ardal Llanwrtyd. Roedd yn ofni yfed y dŵr nes iddo weld broga'n neidio ohono a golwg iach arno! Mentrodd gymryd dracht helaeth ohono a diflannodd y sgyrfi a oedd yn ei boeni yn y man a theimlai fel dyn newydd!

Priododd, Alice , merch Morgan Bevan o'r Gelligaled yng ngorllewin Morgannwg. Roedd hi o dras fonheddig ac yntau'n ymhyfrydu yn ei llinach dda. Bu iddynt bump o blant, tri mab a

dwy ferch. Bu farw 11 Medi 1767 a'i gladdu ym mynwent eglwys

Llangamarch.

Cyhoeddodd Theophilus Evans lawer iawn o weithiau, gwreiddiol a chyfieithiadau, Mae dau amcan i'w canfod drwy ei holl waith, sef dyrchafu bonedd a hynafiaeth cenedl y Cymry, a dangos mai Protestaniaeth Eglwys Loegr yw'r wir ffydd Gristnogol. Roedd ei grefydd yn bwysig iawn iddo.



Ei brf waith yw *Drych y Prif Oesoedd*, Cafodd y llyfr ei gyhoeddi gyntaf ym 1716 pan oedd yr awdur yn ŵr ifanc ac am yr eilwaith ym 1740 gyda rhai ychwanegiadau a chyfnewidiadau. Yn y llyfr ceir '*dau futhos, dwy ran; stori'r genedl a stori ei chrefydd ar wahân*'.

Roedd dawn i adrodd stori neu chwedl gan Theophilus Evans a gwnaeth hynny'n gelfydd iawn, yn enwedig yn ail fersiwn y llyfr. Roedd ei arddull mor gain a'i Gymraeg mor bersain a llawn o ddywediadau bachog a chymariaethau trawiadol fel yr ystyrir *Drych y Prif Oesoedd* yn un o glasuron rhyddiaith Gymraeg'

**Drych y prif
oesoedd**

**Theophilus
Evans**

Perthyn i'w oes ei hun oedd Theophilus Evans. Roedd ymhlith yr haneswyr ceidwadol yn credu'n gadarn yn yr hen draddodiadau. Nid oedd astudio iaith a hanes mewn dull gwyddonol wedi ennill ei blwyf o bell ffordd yn ei ddyddiau e.. Nid oedd cymaint o bwys ar astudio archaeoleg, er enghraifft, gan gasglu tystiolaeth yn wyddonol a'i dadansoddi'n wrthrychol er mwyn gwybod mwy am fywyd hen oesoedd. Aeth ati i ddefnyddio hen hanesion a chwedlau i amddiffyn a dyrchafu bri hanes y genedl a phrofi mai dinistr sy'n aros y wlad o adael y wir grefydd, sef crefydd Eglwys Loegr.

BU *Drych y Prif Oesoedd* yn ddylanwad grymus ar deithi meddwl y Cymry hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif. A Theophilus Evans, fel y dywed Geraint H Jenkins, oedd '*y cyntaf i gofnodi hynt a helynt y genedl yn Gymraeg. Llanwodd fwllch amlwg a haedda glod am hynny.*'



‘Agor y Gair’



***Cyfres newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin***

Pryd?

Boreau Mercher, 18, 25 Hydref, 1 ac 8 Tachwedd 2017

Amser?

10.45 tan 11.45

Ble?

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a’r Parchedig Beti-Wyn James

Tâl?

Nac oes

Croeso cynnes iawn i bawb?

OES!



DRWS AGORED

***BORE IAU 21 Medi 2017 – FESTRI’R PRIORDY
Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11
Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys***



COMEDïAU CWLWM 2017

Dyddiad Newydd

Nos Sadwrn 28 Hydref 2017 am 7.30

Neuadd Bronwydd



MABOLGAMPAU MIC



EIRIOL

Prin nad oes diwrnod yn mynd heibio heb i ni glywed stori yn y cyfryngau am gynnydd afiechyd meddwl ymhlith gwahanol adrannau o boblogaeth y wlad. Bydd un person mewn pedwar, ryw dro, yn dioddef gydag afiechyd meddwl. Bob blwyddyn collir dros 30,000 o ddiwrnodau gwaith yn ein hardal ni oherwydd gofid, straen, iselder ysbryd neu salwch seicotig. Gall effeithio ar bobl o unrhyw oedran ac yn ganlyniad i amryw resymau, gan amharu'n andwyol ar fywydau eraill hefyd, boed y rheiny'n ofalwyr, aelodau'r teulu, ffrindiau



neu'n gydweithwyr. Yn wahanol i afiechyd corfforol, 'dyw bobl ddim fel rheol yn barod i siarad am afiechyd meddwl. Gall y broblem fod yn 'guddiedig', a chymorth yn anodd i'w gael. Mae'n gwneud llawer o bobl yn anhapus, ac yn gost ar ein gwasanaethau

cyhoeddus hefyd – y gwasanaeth iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, a chyfraith droseddol.

Elusen ddwyieithog sy'n darparu gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl (*Mental Health Advocacy*) yn Sir Gaerfyrddin yw Eiriol. Mae'r elusen yn cyflogi nifer o eiriolwyr proffesiynol sydd â'r cymwysterau angenrheidiol, a chefnogir y rhain gan dîm o staff cynorthwyol. Mae ymddiriedolwyr a staff Eiriol yn cydweithio i geisio sicrhau gwasanaeth o safon uchel i rai o'r bobl fwyaf ddiamddiffyn yn Sir Gâr a Cheredigion. Mae'r elusen yn hollol annibynnol, ac yn gweithio'n unig dros y sawl sy'n gofyn am gymorth. Cynyddu'n barhaol mae'r galw am y gwasanaeth.

Gall eiriolwyr Eiriol:

- Roi gwybod i bobl am eu hawliau a'u dewisiadau, a'u helpu os ydyn nhw am gwyno am ryw wasanaeth maen nhw wedi'i dderbyn.
- Helpu pobl i ddod o hyd i sefydliadau eraill sy'n cynnig cymorth er enghraifft cyfreithwyr, gwasanaethau cynghori, cyngor ar ddyled, cymorth gyda budd-daliadau, a materion tai ac ati.

- Helpu pobl i fynegi eu barn trwy ysgrifennu llythyron, gwneud galwadau ffôn, a threfnu cyfarfodydd gyda phobl broffesiynol a'r gwasanaethau cymorth.
- Paratoi pobl ymlaen llaw ar gyfer cyfarfodydd.
- Cefnogi pobl mewn cyfarfodydd er enghraifft. gyda gweithwyr cymdeithasol, meddygon, swyddogion y Cyngor Sir ac eraill.
- Helpu pobl i fynegi eu barn a'u teimladau, a sicrhau fod y rheiny'n cael eu hystyried.

Cynorthwywyd dros 500 o bobl yn Sir Gâr y llynedd i wynebu afiechyd meddwl mewn ffordd bositif, a hefyd, pan oedd angen, i dderbyn gofal a thriniaeth oddi wrth wasanaethau arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, ac yn gyfrinachol. Am bob person sy'n cael ei helpu i osgoi'r angen am gyfnod mewn ysbyty neu am wasanaethau gofal, mae miloedd o bunnoedd o arian cyhoeddus yn cael ei arbed.

Mae Eiriol yn gwneud y gorau o'r arian sydd ar gael gany Cyngor Sir, y Gwasanaeth Iechyd a rhai noddwyr cenedlaethol eraill i gyrraedd cymaint o bobl ag sy'n bosibl. Ond mae wastad angen rhagor er enghraifft. ar gyfer gweithgareddau ychwanegol fel hyfforddiant arbenigol i arbed hunanladdiad, mynychu cynadleddau i rannu'r dulliau gweithio gorau, a darparu gwasanaeth taro-i-mewn mewn pedwar lle. Gallwch gefnogi'r elusen trwy ddod yn "Gyfaill" i Eiriol am gyfraniad bach, a thrwy roi gwybod i eraill am ei waith.

Gallwch ddarllen mwy am yr Elusen ar ein gwefan.

ELUSEN EIRIOLAETH IECHYD MEDDWL EIRIOL

Llawr 1, 59 Heol y Brenin, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 1BA

☎ 01267 231122 www.eiriol.org.uk

Rhif Elusen: 1101857 Rhif Cwmni: 04863344

'Ry'n ni bob amser yn barod i wrando a rhoi llais i chi'

Diolch yn fawr iawn i Huw, un o ymddiriedolwyr Eiriol, am yr erthygl ddiddorol a llawn gwybodaeth hon

APÊL MISOEDD GORFFENNAF AWST A MEDI

PIBAU'R PRIORDY

(CRONFA ORGAN Y CAPEL)



Mae gwahoddiad i bawb noddi un o bibau'r organ.

Awgrymir isafswm o £10.

Mae darlun mawr o bibau'r organ ym mlaen y capel. Mae cyfle i aelodau ddewis unrhyw biben, gosod eu henwau ar y biben a manylion eu nawdd mewn amlen yn y blwch gerllaw gyda'u henwau ar yr amlen.

Bydd y blwch yn cael ei wacáu'n wythnosol.

Bydd yr apêl yn agored rhwng misoedd
Gorffennaf a Medi 2017.

Codwyd mwy na £3000 hyd yn hyn!

Diolch yn fawr iawn i Tim Hayes am drefu'r Apêl

BORE COFFI McMILLAN

Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd

Dydd Gwener 29 Medi 2017

Festri'r Priordy 9.30 tan 12.00

Mynediad am ddim


Stondinau Cynnyrch Cartref a Raffl

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad at y raffl neu'r stondin cacennau cysylltwch ag Alison Parsons ☎01267 238147 neu ☎07860781148 neu alison683@btinternet.com.



YMA O HYD!

CHAFWYD FAWR o ymateb mewn gwirionedd. Dyna beth sy'n gallu digwydd pan gaiff adroddiad ei gyhoeddi ar drothwy gwyliau'r haf!



Adroddwyd ym mis Hydref 2016 y bwriad i ddirwyn y rhaglen i ben. Yna, ym mis Chwefror 2017 daeth cadarnhad o hynny. A'r rhaglen? *Cymunedau yn Gyntaf* a lansiwyd yn wreiddiol yn 2001 – prif raglen trechu tlodi Llywodraeth Cymru.

Ym mis Gorffennaf 2017, ychydig cyn gwyliau'r haf, y cyhoeddwyd yr adroddiad *Cymunedau yn Gyntaf Yr hyn a Ddysgwyd* gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ffrwyth gwaith Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad yw hwn. Y bwriad yw paratoi adroddiad manylach yn yr hydref.

Er iddi gael rhai llwyddiannau yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, nid yw'r rhaglen *Cymunedau yn Gyntaf*, yn ôl yr adroddiad, wedi cael effaith sylweddol ar leihau tlodi ar raddfa leol neu genedlaethol. Mae hynny er gwaethaf cost o £432 miliwn yn ystod oes y rhaglen - swm sylweddol o arian cyhoeddus. Rydym yn casglu mai un o wendidau'r rhaglen hefyd yw diffyg rheoli a gwerthuso perfformiad ar sail Cymru gyfan. Mae hynny'n dipyn o ddweud! Mae felly ddigon o wersi i'w dysgu wrth i Lywodraeth Cymru geisio mabwysiadu dull newydd o fynd i'r afael â tlodi. Nododd yr adroddiad un ar ddeg o argymhellion i'w hystyried.

Tybed mewn gwirionedd a yw tlodi yng Nghymru yn mwynhau proffil digon uchel beth bynnag? A yw'n destun siarad digon cyson?

Rydym yn deall yn iawn, wrth gwrs, nad oes a wnelo tlodi yng Nghymru â sychder, rhyfel na newyn fel y gall fod mewn gwledydd datblygol. Wedi dweud hynny, fel yr awgryma *Tlodi yng Nghymru – Oxfam (2016)*, mae'n llawn mor real.

A wyddech chi fod bron un o bob pedwar o bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi sy'n golygu eu bod yn cael llai na 60% o'r cyflog cyfartalog? Mae hynny'n cyfrif am tua 700,000 o'n cyd-ddinasyddion. Nid yw'r lefel honno o dlodi cymharol wedi newid mewn degawd ychwaith.

Honnir yn aml mai gwaith yw'r ffordd orau allan o dlodi Ond mae'r

cynnydd o ran tlodi mewn gwaith yn codi cwestiwn ynghylch hynny. Mae llawer o bobl sy'n gweithio'n galed mewn argyfwng.

On'd yw hi'n frawychus meddwl fod anghydraddoldeb ar gynnydd yng Nghymru, gyda'r 16% cyfoethocaf yn ein cenedl yn meddu ar gymaint o gyfoeth â'r gweddill gyda'i gilydd!

Mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd i'w weld yn amlwg yn ein prifddinas. Mae hynny'n annerbyniol, yn ôl Arweinydd Cyngor Sir Caerdydd, Ychwanega na all Caerdydd fod yn un o'r dinasoedd mwyaf blaengar yn y byd os oes 60,000 o bobl yno'n byw mewn tlodi.

Mae'r sialens yn enfawr. Mae'n amlwg nad oes ateb hawdd sy'n mynd i wella pethau'n wyrthiol dros nos. Dyna, er enghraifft, yw casgliad gwaith ymchwil a wnaed mewn perthynas â Pharc Lansbury sy'n gartref i 2.200 o bobl wedi'i leoli tua milltir o ganol tref Caerffili - *'yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y ddwy flynedd ddiwerthaf'*.

Mae effaith tlodi a chaledi i'w weld ar rannau o ardaloedd gwledig Cymru. Ond tybed a ydym yn clywed digon am hyn ar y cyfryngau a thrwy'r wasg? Mae cân Rodney Evans o Flaenau Ffestiniog, sef, *Talu Bils* yn agor ein llygaid i'r tlodi hwn. Wrth ysgrifennu amdani yn y gyfrol ddiweddar *Rhywbeth i'w Ddweud (Barddas 2017)* dywed Dylan Meirion Roberts (Dyl Mei): *Rydan ni'n cael mwy o wirionedd am fyw heddiw ac am y byd sydd ohoni mewn un gân a recordiwyd mewn parti, nag rydan ni'n ei gael gan y cyfryngau'*.

Mae'r banciau bwyd ledled Cymru'n gwneud cyfraniad pwysig i lleddfu problem tlodi os nad ei datrys. Yn y naw mlynedd diwethaf mae Ymddiriedolaeth Trussell wedi agor 36 o fanciau bwyd yng Nghymru. Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017 dosbarthwyd 60,387 o becynnau bwyd i oedolion a 34,803 i blant yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd adeg gwyliau'r ysgol - fel sydd yng Nghaerfyrddin., Daeth i'r amlwg ar ddiwedd y flwyddyn ysgol eleni fod rhai teuluoedd yn cael problemau heb brydau ysgol am ddim. Er enghraifft, rhedodd Banc Bwyd Eastside, Abertawe o'u cyflenwad gyda gwirfoddolwyr yn gwneud apêl brys am roddion.



Yn ôl **Tony Graham**, cyfarwyddwr gwledydd datganoledig Ymddiriedolaeth Trussell, mae Cymru "ar y blaen" i lywodraethau eraill y Deyrnas Unedig yn mynd i'r afael â thlodi bwyd, gyda chynlluniau fel prydau ysgol am ddim. Canmolodd gynllun gwerth £500,000 gan Lywodraeth Cymru i ddarparu prydau am ddim dros wyliau'r haf yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad. Ond nododd hefyd fod gan Gymru "broblemau unigryw" ynglŷn â thlodi a'i bod yn tyfu'n or-ddibynnol ar fanciau bwyd,



MAE GWIR angen i ni ddeffro i argyfwng tlodi'n gwlad. Mae angen symud nef a daear i ddatrys yr argyfwng - argyfwng sy'n mynnu sefyll allan fel llaid ar farch gwyn!

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 20 Medi 2017 am 7 yn y Ffestri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

DIOGELU GRWPIAU BREGUS

Dau sesiwn hyfforddiant i'n helpu i ddeall ein cyfrifoldebau at blant ac oedolion bregus yn ein capeli

Festri Heol Awst

Dydd Mercher 27 Medi 2017 2-4 neu 6.30-8.30


dan ofal

Julie Edwards

Swyddog Hyfforddiant y Panel Diogelwch Cydenwadol

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Philip, Dr Llinos Roberts a Fiona Elias am y lluniau'r mis hwn



TE DEUM

Elfed ap Nefydd Roberts

Gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd bychain, grwpiau defosiwn neu gyfarfodydd gweddi

Cyhoeddiadau'r Gair (Awst 2017 - £9.99)

GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

MEDI		HYDREF	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Catrin Heledd Jones	Gareth Gravell	Philip Jones	Gwynfor Davies

BLODAU

Medi	10	Eirlys Thomas	Hydref	1	Jan Davies
				15	Rhyswen Michael
				29	Thelma Evans

PARATOI'R BWRDD CYMUN

Medi	3	Bore	Eleri Thomas a Delyth Davies
Hydref	3	Hwyr	Alison Parsons a Ffion Parsons

YMWELWYR

Medi / Hydref	Thelma Evans a June Thomas
---------------	----------------------------

DARLLENWYR MEDI / HYDREF 2017

DARLLENWYR MEDI / HYDREF 2017					
Medif	3		Hydref	1	
	10	Mwynwen Jones		8	Meinir Jones
	17	Alwen Owen		15	Lleucu Edwards
	24			22	Siân Axford
				29	Wyn Tegryn Evans

CYHOEDDWYR

Medi	Adrian Evans	Hydref	Wyn Tegryn Evans
------	--------------	--------	------------------

RHWYDWAITH



CYFARCHION cynhesaf oddi wrth bawb yn y Priordy i Mair Lewis, Hafod Cwnin, ar enedigaeth ei gor-wyr Billy Thomas



James Davies ar 18 Gorffennaf 2017. Mae'n fab i Catrin Mair a William Davies, Pen-coed, Penybont-ar-Ogwr ac yn ŵyr i Maynard ac Enid Lewis. Ein dymuniadau da hefyd i Gwyneth Griffiths, Heol Bronwydd, ar enedigaeth y pumed o'i hor-wyrion, a gor-wyres y tro hwn, Gwenno Haf ar 24 Gorffennaf. Mae Gwenno'n ferch i Menna ac Iwan Morgan, Nantybwl, yn frawd bach i Harri Rhys a Tomos Rhys, ac yn ŵyr i Megan a Clive, Beili Glas, Felin-wen. Pob bendith ar y bychain a'u teuluoedd.



Mae Mari Lisa, Huw a Beca Davies gynt o Heol Bronwydd, wedi symud eu haelodaeth drwy lythyr i Gapel Ebeneser, Dinas Mawddwy erbyn hyn, a'r Dr Huw Edwards, gynt o Heol Llysonnen, i Gapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Dymunwn yn dda iddynt ar eu haelwydydd ac yn eu capeli newydd. A llongyfarchiadau hefyd i Mari Lisa ar dderbyn ei doethuriaeth ym Mhrifysgol Bangor yn ystod yr haf.

Mae'r haf yn gyfnod canlyniadau arholiadau, wrth gwrs. Gallwn ymfalchïo yn llwyddiant ein pobl ifainc fel a ganlyn Safon A : Elin Wyn James a Cara Rogers, AS: Heledd Jones, Mared Owen a TGAU BI 11 - Sara Llwyd James, Caspar Rolant a Cerys Wyn Thomas .TGAU BI10: Iwan Davies, Rhiannon Jones, Steffan Jones Iestyn O'Leary, Lleucu Owen ac Ifan Rogers. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol oddi wrth bawb yn y Priordy.

Graddiodd Jac Davies, Fferm Penlanffos a Sara Wyn, Rhes Parcel, o Brifysgol Met Caerdydd, Sofia Rizzi, Parc Penllwyn, o Brifysgol Caerdydd a Mirain Ifan, Penymorfa, Llangynnwr o Brifysgol Aberystwyth yr haf hwn. Mae Sara Wyn newydd ddechrau swydd newydd yn Bournemouth.fel therapydd lleferydd. Dymunwn yn dda iddynt i gyd..



Mae Tina Charles, Heol Bronwydd, Rhian Mair Evans, Rhodfa'r Gogledd Philip Jones, Clos Cwnin, Victor Jones, Erw Hir, David Lloyd Dolgwili, John Maddox Hafan Tywi a Margaret Jones, Heol San Pedr wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iddynt, a danfonwn ein cofion gorau atynt a'u teuluoedd.

Ar wahanol adegau yn ystod yr haf gwelwyd rhai o'r Priordy ar y cyfryngau. Bu ailddarllediad o Noson Lawen ar S4C yn cynnwys Gareth Gravell yn rhan o'r grŵp Jac-y-do. Bu Marek Owen yn trafod lle Hanes Cymru yn y cwrwllwm newydd ar Newyddion 9. Ein llongyfarchiadau hefyd i Marek ar ei hethol yn un o brif ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. A gwelsom Elin Llwyd yn cyflwyno ar S4C ac yn canu gyda Cywair yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.



Llongyfarchiadau i Siwan Jones, Cae Seiri ac aelod o'n Hysgol Sul, ar ddod yn gyntaf yn yr Unawd Cerdd Dant dan 12 oed a'r Unawd Alaw Werin dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. A bu Elin Wyn James a Ceri Haf Rees yn canu yng Nghôr Llanddarog ac Elin Llwyd yng Nghôrddydd (a ddaeth yn ail). Bu Carys Edwards, Ael-y-Bryn, yn arwain Seremoni'r Fedal Ddrama a Tudur Dylan Jones, Heol Penlanffos, yn Feuryn yn Nhalwrn y Beirdd.



Daeth llwyddiant mawr i Gôr Merched Sir Gâr. Yn dilyn eu buddugoliaeth yng Nghystadleuaeth Côr Cymru ym mis Ebrill daeth cyfle iddynt gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Côr y Flwyddyn Eurovision yn Riga, prifddinas Latfia. Daethant yn ail ac aelodau o'r Côr oedd Elin Wyn a Sara Llwyd James a Marek Owen., Ardderchog.



Pob dymuniad da i Lleucu Edwards, Ael-y-Bryn, un o gynorthwywyr gwerthfawr ein Hysgol Sul, ar ei phenodi'n Swyddog Datblygu Cynorthwyol gydag Urdd Gobaith Cymru yn Rhanbarth Myrddin. Pob llwyddiant gyda'r gwaith.



A diolch i bawb a gymerodd ran yn rowndiau terfynol Mabolgampau Dan Do MIC yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin cyn y gwyliau. Mae'r lluniau yn y Papur hwn.



Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau da i'r Parchedig W J Edwards, ein cyn-weinidog, ar gyflawni hanner can mlynedd yn y weinidogaeth y mis hwn. Tipyn o garreg filltir! Mae sgwrs rhyngddo a Phapur Priordy yn y rhifyn hwn.



I GLOI, rydym yn dymuno'n dda i Heather Williams, un o'n horganyddion. Mae hi newydd ddathlu pen-blwydd arbennig ond yn anhwylyd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Cofion cynnes oddi wrth bob un ohonom a gwellhad buan!



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Hydref i'n

Gweinidog ☎ 01267 neu

Tina Charles ☎ 01267 236037

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Siân Dalis Davies, Heol Login, Llangynnwr, ar golli'i brawd, David Elias Lewis, Rhydyferwig, Ceinewydd, tua diwedd mis Awst. Anfonwn ein cofion yn annwyl iawn at Siân a'r teulu i gyd yn eu hiraeth a'u galar.

Roedd hi'n ddrwg iawn gennym glywed hefyd am golli Sally Walters, Tŷ Isaf, Bancyfelin, yng Nghartref Dôl-y-felin, Sanclêr, yn ystod mis Awst. Bu Sally'n hynod o driw i Gapel Bancyfelin, fel aelod ac ysgrifennydd, am flynyddoedd lawer ac yn gyfaill da a ffyddlon i'n Gofalaeth. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i chyd-aelodau ym Mancyfelin a'i chyfellion oll yn y golled hon.

SULIADUR

Medi	3	Bore Hwyr	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog Ein Gweinidog, y Tabernacl yn ymuno	C
	10	Bore P'nawn Hwyr	Ein Gweinidog Oedfa i Ddathlu Hanner Can Mlynedd y Parchedig W J Edwards yn y Weinidogaeth yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn am 3. Ymarfer i'r Oedolion yn Ebeneser, Abergwili am 7 ar gyfer	

			Gŵyl Mawl Medi	
	17	Bore Hwyr	Ein Gweinidog. Pererindod Capel y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr yn ymuno â ni Ymarfer i'r Plant yn y Priordy am 11 ar gyfer Gŵyl Mawl Medi Casgliad at y Genhadaeth (mewn amlen gyda'ch rhif a'ch enw ar y blaen) Cydaddoli yn y Tabernacl gyda'r Parchedig Peter Cutts Ymarfer i'r Oedolion yn Ebeneser, Abergwili am 7 ar gyfer Gŵyl Mawl Medi	
	24	Bore P'nawn	Gŵyl Mawl Medi yn Ebeneser, Abergwili am 10 Gŵyl Mawl Medi yn Ebeneser, Abergwili am 2 <i>Manylion llawn y tu mewn</i>	

Hydref	1	Bore Hwyr	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a'r Bobl ifainc Cwrdd Pregethu a Swper Diolchgarwch gyda'r Parchedig John Roberts (BBC Radio Cymru) a'n Gweinidog. Y Tabernacl yn dod atom	C
	8	Bore Hwyr	Ein Gweinidog Cydaddoli yn y Tabernacl gyda'r Parchedig Peter Cutts	
	15	Bore P'nawn	Ein Gweinidog Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth	
	22	Bore	Ein Gweinidog	
	29	Bore P'nawn	Y Parchedig Denzil John Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig Denzil John	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy CP : Cwrdd Plant - Dim Ysgol Sul GMM(Y) – Ymarfer Gŵyl Mawl Medi am 11 GMM – Gŵyl Mawl Medi								
Medi				Hydref				
3	10	17	24	1	8	15	22	29
CP	✓	✓ GMM (Y) PIP	GMM	CP	✓	✓ Erw Hir PIP – Ar daith	✓	-